

Trawsgrifiad o fideo ‘Dewis gofal i oedolion’

Bethan White: Dyw dewis gofal ddim yn beth hawdd i’w wneud. Fel arolygydd, dw i’n mynd mewn i gartrefi gofal i ymweld â nhw, ac arolygu’r lle, ac wedyn i wasanaethau lle mae’r bobl yn cael gwasanaeth yn eu tŷ eu hunain. Dw i’n edrych i weld os yw’n ddiogel; beth yw ansawdd bywyd yr unigolyn; ac a ydyn nhw’n fodlon ar y gwasanaeth maen nhw’n [ei] gael.

Dw i’n awgrymu edrych ar ein gwefan ni a darllen yr adroddiadau arolygu ynglŷn â’r gwasanaeth rydych chi wedi’i ddewis. Y pethau i’w hystyried pan ydych chi’n dewis gwasanaeth – yn y lle cyntaf, mae’n bwysig edrych ar ein gwefan ni a defnyddio’n gwefan ni i weld pa fath o ofal sydd ar gael. Ar ôl dewis gwasanaeth, mae’n bwysig gweld a yw’r gwasanaeth wedi cofrestru gyda ni, ac os yw wedi cofrestru, darllenwch yr adroddiad rydyn ni wedi’i wneud i gael mwy o syniad o beth sy’n mynd ymlaen.

Os yn bosibl, gofynnwch i siarad â’r rheolwr. Weithiau yn ein hadroddiadau ni rydyn ni’n ysgrifennu pethau i’w gwella, a lle rydyn ni eisiau iddyn nhw edrych ar bethau pwysig arbennig lle mae’n rhaid iddyn nhw wellhau. Gallwch chi ystyried a thrafod wedyn â’r rheolwr i weld beth mae wedi’i wneud ynglŷn â hynny.

Ydy’r lle yn lân, oes aroglau annymunol o gwmpas, ydy e wedi’i addurno’n hyfryd/yn ddymunol? Mae gofyn i weld yr ystafelloedd gwely nodweddiadol yn syniad da. [Ac] mae’n bwysig edrych i weld pa fath o fwyd mae’r bobl yn ei fwyta; ydy’r fwydlen yn rhoi dewis iddyn nhw; a ydyn nhw’n cael dewis pryd i fwyta, a ble i fwyta?

Os cewch chi gyfle, rhywbeth arall pwysig yw siarad â phobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth, y perthnasau, a’r bobl sy’n gweithio yno i gael eu barn nhw am y gofal sydd ar gael.